

Agor y Llyfr

Bydd criw Agor y Llyfr yn ymweld ag Ysgol Gwaun Gynfi fore Gwener, Mawrth 17. Byddai'n dda cael rhagor i ymuno â'r tim. Beth am ddod unwaith i gael gweld beth sy'n digwydd? Cewch ragor o fanylion gan y Gweinidog.

'Y Ffordd'

Cynhelir cyfarfod nesaf 'Y Ffordd' yn festri Carmel am 7.00 o'r gloch, nos Fercher, Mawrth 15.

Cyhoeddiadau

CEFNYWAUN AC EBENESER

Nos Lun, Chwefror 27: Y Gymdeithas Undebol yn Nhŷ Elidir am 7.00 o'r gloch yng nghwmni'r Parchg Dafydd Job.
Dydd Sul, Mawrth 5: Gwasanaethir am 3.30 o'r gloch gan y Gweinidog.

CAPEL COCH A NANT PADARN

Nos Wener, Mawrth 3: CIC am 7.00 o'r gloch.
Dydd Sul, Mawrth 5: Gwasanaethir am 10.00 o'r gloch gan Mr Euron Hughes a chynhelir yr Ysgol Sul am 11.15 o'r gloch.

REHOBOTH

Dydd Sul, Mawrth 5: Gwasanaethir am 2.00 o'r gloch gan y Gweinidog.

Y mis nesaf - Deiniolen

Chwefror 26

5.00 p.m. - Y Canon Idris Thomas

Mawrth 5

3.30 p.m. - Y Gweinidog

Mawrth 12

5.00 p.m. - Dr Huw Tegid Roberts

BETHLEHEM

Dydd Sul, Mawrth 5: Yr Ysgol Sul am 10.00 o'r gloch. Gwasanaethir am 2.00 o'r gloch gan y Gweinidog.

CARMEL

Dydd Llun, Chwefror 27: Te Bach rhwng 2.30 a 4.00 o'r gloch.
Nos Wener, Mawrth 3: Dwylo Prysyr am 6.30 o'r gloch.

Dydd Sul, Mawrth 5: Bydd yr Ysgol Sul am 10.30 o'r gloch, a gwasanaethir yn yr Oedfa Gymun am 5.00 o'r gloch gan y Gweinidog.

CYNLLUN EFE

Dydd Llun, Chwefror 27: Cyfarfod Gweddi yn 'Cartref', Caeathro am 10.30 o'r gloch.



Cyfarfod Ffarwelio ag Andrew Settatree

yng Nghapel y Rhos, Llanrug

am 7.00 o'r gloch.

Nos Fawrth, Chwefror 28

Croeso cynnes i bawb

Y mis nesaf - Llanberis

Chwefror 26

10.30 a.m. - Oedfa Deulu

Mawrth 5

10.00 a.m. - Mr Euron Hughes
11.15 a.m. - Ysgol Sul

Mawrth 12

10.00 a.m. - YGweinidog
11.15 a.m. - Ysgol Sul
5.00 p.m. - Oedfa MOLI



Gronyn

Taflen wythnosol Gofalaeth Fro'r Llechen Las
Rhif 718: Dydd Sul, 26 Chwefror, 2017

Un Arglwydd

golwg fygythiol drostyn nhw. Y fath ragrith! 'Clodforwn, gwarchodwn, dyrchafwn Dŷ'r Arglwyddi; ond na foed i'r arglwyddi hynny feiddio gwneud eu gwaith na dweud unrhyw beth nad ydym ni eisiau ei glywed'.

Ie, rhagrith llwyr. Ond rhagrith sydd, gwaetha'r modd, yn medru bod mor agos atom ninnau. Yn ei lythyr at yr Effesiaid dywed yr Apostol Paul, 'un Arglwydd [sydd] ... un Duw a Thad i bawb' (4:5-6). Ond mor rhwydd yw trin Arglwydd Dduw y nef a'r ddaear yn union fel roedd Mrs May yn trin arglwyddi'r Senedd. Clodforwn, gwarchodwn, dyrchafwn enw Duw. Ond mor aml y gwrthodwn blygu i'w ffyrdd, ac mor rhwydd y gwrthodwn wrando ar yr hyn a ddywed. Credwn ynddo gan ei arddel yn Arglwydd ein bywydau. Mae hynny'n ddigon hawdd. Anos o lawer yw derbyn mai gan yr Arglwydd hwn y mae'r hawl i ddweud wrthym ni sut i fyw. Mor rhwydd yw edrych yn fygythiol ar yr Arglwydd sydd am fod yn ben ac am reoli ein mynd a dod beunyddiol. Pam ddylem ni wrando ar Dduw, mwy nag ar unrhyw un arall? Pam na chawn ni benderfynu beth i'w wneud?

Mae'n debyg y dylem ddiolch i Mrs May. Oherwydd trwy ei rhagrith a'i hyfdra a'i hamarch digywilydd gerbron yr arglwyddi roedd y Prif Weinidog yn ein hatgoffa o'r perygl mawr i ninnau beidio â rhoi'r parch dyladwy i'r Un a'r Unig Wir Arglwydd.

Y mae i Dŷ'r Arglwyddi ei wendidau. Mae hynny'n amlwg. Byddai rhai'n falch o'i weld yn diflannu am byth am ei fod yn llawn o bobl nad oes neb wedi eu hethol; am fod rhagor nag un o bob deg ohonynt nhw wedi etifeddu'r hawl i fod yno; ac am fod cymaint o bobl gyfoethog wedi llwyddo i 'brynu' sedd yno. Ond er pob beirniadaeth, dadlau dros ddiwygio'r sefydliad a wnaiff y mwyafrif am eu bod yn credu fod 'ail dŷ' neu ail siambr seneddol yn angenrheidiol, er mwyn craffu ar y deddfau a wneir yn Nhŷ'r Cyffredin a gwella arnynt. Ers cenedlaethau, mae Prydeinwyr o bob lliw gwleidyddol wedi hawlio mai San Steffan yw'r enghraifft odidocaf o ddemocratiaeth, ac wedi mynnu mai dyma'r safon a'r esiampl i holl wladwriaethau'r byd. Dan y drefn hon, mae'r 'arglwyddi' yn cyflawni swyddogaeth holl bwysig. Dyna ydym ni i fod i'w gredu beth bynnag. Neu, dyna *oeddem* i'w gredu.

Yr wythnos ddiwethaf, roedd yr 'arglwyddi' yn trafod 'Mesur [Hysbysiad i Adael] Yr Undeb Ewropeaidd' Llywodraeth Theresa May sef, y Bil Brexit bondigrybwyll. Roedd 190 o'r 'arglwyddi' eisiau cyfrannu at y drafodaeth (bron i chwarter aelodaeth y Tŷ). Pa sylwadau fydden nhw yn eu gwneud? Pa ddiwygiadau fydden nhw yn eu hawgrymu? Y disgwyl o du'r Llywodraeth oedd na fydden nhw'n gwneud dim o'r fath beth! Ac er mwyn pwysleisio hynny, roedd Theresa May yno ar ddechrau'r drafodaeth i fwrw

Gofalaeth Fro'r Llechen Las

Cefnywaun (P), Deiniolen
Ebeneser (A), Deiniolen
Capel Coch (P), Llanberis
Nant Padarn A), Llanberis
Rehoboth (P), Nant Peris
Bethlehem (A), Talybont
Carmel (A), Llanllechid

Gweinidog: Y Parchg John Pritchard
Cilfynydd, Llanberis, Gwynedd
Ffôn: 01286 872390
e-bost: john.cilfynydd@btinternet.com

Gwefan yr Ofalaeth:
gronyn.wordpress.com
neu gronyn.org

Balm o Salm



'Bydd drugarog wrthyf, O
Dduw, yn ôl dy ffyddlondeb;
yn ôl dy fawr dosturi dilea fy
nhroseddau; golch fi'n lân o'm drygioni,
a glanha fi o'm pechod. Oherwydd gwn
am fy nhroseddau, ac y mae fy mhechod
yn wastad gyda mi. Yn dy erbyn di, ti yn
unig, y pechais a gwneud yr hyn a
ystyri'n ddrwg, fe dy fod yn gyfiawn yn
dy ddedfryd, ac yn gywir yn dy farn
(Salm 51:1-4).

Heddiw

Cynhelir yr Oedfa Deulu yn Capel Coch
am 10.30 o'r gloch.

Gwasanaethir yn Neiniolen am 5.00 o'r
gloch gan y Canon Idris Thomas.

Cynhelir Gwasanaeth Gŵyl Ddewi yn
Llanllechid dan arweiniad yr Ysgol Sul
am 10.30 o'r gloch, ac yna gwasanaethir
am 5.00 o'r gloch gan y Gweinidog.

Bydd yr Ysgol Sul yn Nhalybont am
10.00 o'r gloch, a gwasanaethir am 2.00

o'r gloch gan y Gweinidog.

Nid oes oedfa yn Rehoboth heddiw.

Cofion

Anfonwn ein cofion at bawb sydd heb
fod yn dda, ac yn arbennig at bawb sy'n
methu â dod i'r oedfa ar hyn o bryd.

Cyfarfod Ffarwelio ag Andrew

Heddiw yw Sul olaf Andrew Settatee yn
ein plith fel Gweithiwr Ieuentid, ac felly
dymunwn bob bendith a mwynhad iddo
yn ei swydd newydd yn ardal Pwllheli a a
Phen Llŷn gydag Eglwys Bresbyteriaid
Cymru.

Nos Fawrth nesaf yma, Chwefror 28
bydd Cynllun Efe yn cynnal Cyfarfod i
Ffarwelio ag ef yng Nghapel y Rhos,
Llanrug. Dechreuir am 7.00 o'r gloch, ac
mae croeso i bawb i ddod yno i ddangos
ein gwerthfawrogiad i Andrew am ei holl
waith ers iddo ddod atom ym mis Hydref
2008.

Tysteb Andrew

Os oes unrhyw un yn dymuno cyfrannu
at Dysteb i Andrew Settatee i ddiolch
iddo am y gwasanaeth arbennig a
gafwyd ganddo yn Capel Coch fel rhan
o'i waith gyda Chynllun Efe, a wnewch
chi anfon eich rhodd i'r Gweinidog neu i
Colin Jones, Trysorydd Capel Coch
erbyn HENO, nos Sul, Chwefror 26 os
gwelwch yn dda.

Dydd Gweddi

Byd eang y Chwiorydd

Cynhelir Gwasanaeth blynyddol Dydd
Gweddi Byd Eang y Chwiorydd yn
Ebeneser, Deiniolen am 6.00 o'r gloch
nos Wener yr wythnos hon, Mawrth 3.

Thema'r Gwasanaeth eleni yw 'Ydw i'n
annheg â thi?' Paratowyd y gwasanaeth
gan Gristnogion o Ynysoedd y Pilipinas.
Mae Dameg y Gweithwyr yn y Winllan
(o Mathew 20:1-16) yn sail i'r thema.

Cwrs Ieuentid

Mae rhai o ieuentid CIC Llanberis yng
Ngholeg y Bala mewn Cwrs Ieuentid ers
nos Wener. Byddant yn dod adref ar ôl
cinio heddiw. Roedd Andrew Settatee
yno gyda nhw am ran o'r amser, a diolch
iddo am drefnu iddynt gael mynd yno.

Cymdeithas Undebol

Cynhelir Cymdeithas Undebol Deiniolen
yn Nhŷ Elidir am 7.00 o'r gloch nos
yfory, nos Lun, Chwefror 27. Bydd y
Parchg Dafydd Job, Bangor yn sôn am ei
deithiau cenhadol a bugeiliol i wledydd
yn Nwyrain Ewrop.

Yr Henaduriaeth

Cynhelir cyfarfod nesaf Henaduriaeth
Arfon yng Nghapel Horeb, Rhostryfan
am 1.30 o'r gloch, ddydd Mawrth,
Chwefror 28. Yn ystod y cyfarfod byddaf
yn cyflwyno teyrnged i'r ddiweddar Mrs
Margaret Cynfi Griffith ar ran eglwys
Cefnywaun.

CIC

Cynhelir cyfarfod nesaf CIC yn Capel
Coch am 7.00 o'r gloch, nos Wener,
Mawrth 3. Edrychwn ymlaen at weld y
criw yn ôl y noson honno.

Cefnogi Efe

Mae Cynllun Efe yn bwriadu chwilio am
weithiwr newydd i gymryd lle Andrew ac
felly mae'r angen am arian yn para.

Dyma'r adeg o'r flwyddyn y byddwn yn
gwneud ein hapel flynyddol am
gefnogaeth.

Os oes unrhyw un yn dymuno cyfrannu a
wnewch chi anfon eich cyfraniadau at y
Gweinidog os gwelwch yn dda.

Gall aelodau Capel Coch roi'r rhoddion i
Drysorydd y capel, Colin Jones, a bydd
ef yn ei anfon ymlaen i Gynllun Efe.

Mae modd trefnu i gyfrannu'n rheolaidd
trwy orchymyn banc. Ac os byddwch yn
llenwi ffurflen 'Rhodd Cymorth' bydd
Cynllun Efe yn medru hawlio arian
ychwanegol oddi wrth yr Awdurdodau
Treth.

Cronfa Gronyn

Diolch yn fawr iawn am bob rhodd a
dderbyniwn i Gronfa Gronyn.

Mae'r arian yn help i dalu am argraffu
Gronyn bob Sul.

Gellir cyfrannu at y Gronfa unrhyw adeg,
a gwerthfawrogn bob cyfraniad yn
fawr.

Mae modd anfon cyfraniadau at gostau
Gronyn at Drysorydd yr Ofalaeth, Mrs
Bet Williams, 21 Stryd yr Wyddfa,
Llanberis, neu gallwch eu rhoi i'r
Gweinidog.

Y gobaith yw bod cymaint o bobl â
phosibl yn derbyn Gronyn. Felly, os
gwyddoch am rywun a fyddai'n hoffi
derbyn copi yn wythnosol, ond nad yw'n
ei dderbyn ar hyn o bryd, cofiwch roi
gwybod i ni.